PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 8 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, Mrs. J.M. Norman, Mrs. S.D. Perkes a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a Mrs. J. Lynch-Wilson (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) ac L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr T.H. Jarvie ac A.C. Parker.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. YMATEB I YMGYNGHORIAD: CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB HILIOL DRAFFT LLYWODRAETH CYMRU (CYF) -

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo ymateb drafft yr ymgynghoriad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn galluogi cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 15 Gorffennaf, 2021.

EITEM AGENDA 5. EFFAITH PANDEMIG CORONAFIRWS AR IECHYD CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL A MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC YM MRO MORGANNWG A THROSOLWG O'R GEFNOGAETH A DDARPERIR GAN YR AWDURDOD LLEOL (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod canlyniadau adroddiad Coronafeirws a Fi'r Comisiynydd Plant a data'r Awdurdod Lleol sy'n amlinellu effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg yn cael eu nodi.

(2) Bod y ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi nodi effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc cyn y pandemig a'i ddull strategol o fynd i'r afael â hyn yn cael ei gydnabod.

(3) Bod y cymorth cyffredinol ac wedi'i dargedu y mae'r Awdurdod Lleol wedi'i roi i gefnogi lles plant a phobl ifanc fel rhan o ddull strategol ac mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig yn cael ei gydnabod.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CWRICWLWM I GYMRU: Y DAITH I 2022 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod canfyddiadau'r adroddiad a'r dulliau sy'n cael eu datblygu i gefnogi ysgolion gyda diwygio'r cwricwlwm yn cael eu nodi.

(2) Bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob tymor am ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys gwybodaeth am barodrwydd ysgolion ar gyfer mis Medi 2022.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ysgolion tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 (DIWEDD BLWYDDYN) 2020/21 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant

Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o dan-berfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. CAU CYFRIFON 2020/21 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – Bod yr adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd yn cael eu cymeradwyo

Rheswm dros yr argymhelliad

Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd

EITEM AGENDA 9. MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 MAI 2021 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo a lanlwytho Amserlen Rhaglen Waith Ymlaen y Pwyllgor sydd wedi'i hatodi yn Atodiad C i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth.